**Powys**

*Neuadd y Sir / County Hall, Llandrindod, Powys, LD1 5LG*

Jeremy Patterson
Prif Weithredwr

Os yn galw gofynnwch am - If calling please ask for
Stephen Boyd

| | |
|---|---|
| *Ffôn / Tel:* | 01597 826374 |
| *Ffacs / Fax:* | 01597 826220 |
| *Ffôn Symudol / Mobile:* | |
| *Llythyru Electronig / E-mail:* | sboyd@powys.gov.uk |
| *Dyddiad / Date:* | **28 Tachwedd 2014** |


**Annwyl Aelod,**

**Gofynnir am eich presenoldeb yng nghyfarfod CYNGOR SIR POWYS, sydd i'w gynnal yn SIAMBR, NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD MERCHER 22 Hydref 2014 am 10:30AM**

**Yr eiddoch yn gywir,**
**Jeremy Patterson**
**Prif Weithredwr**

# A G E N D A

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC77-2014 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION | CC78-2014 |
|---|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo cofnodion cyfarfod(ydd) diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiad(au) canlynol fel cofnod / cofnodion cywir.

[ Amgaead CC78a-2014 ] (Cyngor Sir Powys 16 Gorffennaf 2014) (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC79-2014 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC80-2014 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC81-2014 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR | CC82-2014 |
|---|---|---|

I dderbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | TROSGLWYDDIADAU'R GYLLIDEB SYDD ANGEN EU CYMERADWYO GAN Y CYNGOR | CC83-2014 |
|---|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau'r gyllideb dros £300,000 sydd angen eu cymeradwyo gan y Cyngor.

[ Amgaead CC83a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 8. | ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL | CC84-2014 |
|---|---|---|

I dderbyn ac ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

[ Amgaead CC84a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

[ Amgaead CC84b-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

[ Amgaead CC84c-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 9. | GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR - ANEDDLEOEDD SYDD HEB EU MEDDIANNU AC HEB FAWR O DDODREFN | CC85-2014 |
|---|---|---|

Derbyn ac ystyried adroddiad ar ostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer aneddleoedd sydd heb eu meddiannu ac heb fawr o ddodrefn.

[ Amgaead CC85a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 10. | DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD PRESENNOL - RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (RHEOLAU SEFYDLOG) (CYMRU) (DIWYGIO) 2014 | CC86-2014 |
|---|---|---|

I ystyried diwygiadau i'r Cyfansoddiad presennol fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

[ Amgaead CC86a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

[ Amgaead CC86b-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

[ Amgaead CC86c-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 11. | PROTOCOL CYNIGION LLEOL | CC87-2014 |
|---|---|---|

I ystyried mabwysiadu'r Protocol Cynigion Lleol fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

[ Amgaead CC87a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 12. | CAMAU ANNERBYNIOL GAN DDEFNYDDWYR GWASANAETH | CC88-2014 |
|---|---|---|

I ystyried mabwysiadu polisi ar gyfer rheoli camau annerbyniol gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

[ Amgaead CC88a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 13. | PRESENOLDEB O BELL A GWEDDARLLEDU | CC89-2014 |
|---|---|---|

I ystyried adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor.

[ Amgaead CC89a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 14. | Y CYFANSODDIAD NEWYDD | CC90-2014 |
|---|---|---|

I ystyried cymeradwyo adrannau o'r Cyfansoddiad newydd.  Bydd Adran 4 yn dilyn.

[ Amgaead CC90a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

[ Amgaead CC90b-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

[ Amgaead CC90c-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

**MAE'R EITEM WEDI'I AMSERU AR GYFER 12.30**

| 15. | CYNLLUNIAU YSGOLION IACH - RHWYDWAITH CYMRU - GWOBR ANSAWDD CENEDLAETHOL | CC91-2014 |
|---|---|---|

Derbyn cyflwyniad gan ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangors, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pontnewydd ar Wy ac Ysgol Gynradd Carreghofa sy'n derbyn Gwobr Ansawdd Cenedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach Rhwydwaith Cymru.

| 16. | PENODIAD I GYNGOR CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU | CC92-2014 |
|---|---|---|

Penodi un Aelod i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Sir Tony Thomas o'r swydd honno.

| 17. | PENODI I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL, A GYMERADWYWYD GAN Y SWYDDOG MONITRO | CC93-2014 |
|---|---|---|

I nodi bod y canlynol wedi cael eu penodi i bwyllgorau a chyrff allanol gan y Swyddog Monitro dan y pwer dirprwyo cyffredinol a gyflwynwyd gan y Cyngor ar 16 Mai 2013: Penodi'r Cynghorydd David Jones i'r Pwyllgor yr Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn, a phenodi'r Cynghorydd Sir Francesca Jump i Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru.

| 18. | RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORWYR ALED DAVIES A PETER LEWIS | CC94-2014 |
|---|---|---|

Er mwyn cefnogi'r Iaith Gymraeg, bydd Cyngor Sir Powys yn mabwysiadu enwau Cymraeg yn unig ar ddatblygiadau newydd y Cyngor. Yn cynnig: Y Cynghorydd Aled Davies, Yn eilio: Y Cynghorydd Peter Lewis.

| 19. | RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORWYR SIR ALED DAVIES A GWYNFOR THOMAS | CC95-2014 |
|---|---|---|

Mae ffermwyr godro a chig eidion Powys dan bwysau sylweddol. Mae prisiau cig eidion ar y fferm wedi gostwng yn sylweddol dros y 12 mis diwethaf ac mae achosion o diciau'n parhau i gael effaith andwyol ar ffermydd cig eidion a godro. Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal arbrawf ar y cyd trwy Powys ar gael gwared ar y diciau. Ni fyddai unrhyw gost i Lywodraeth Cymru. Byddai'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n rhoi trwydded i ffermwyr sydd wedi dioddef achos o diciau. Nod yr arbrawf fyddai ceisio darganfod a oes effaith ar nifer yr achosion o'r diciau ar ffermydd Powys pan fydd fferm yn cael trwydded yn caniatau'r ffermwr i reoli moch daear ar y fferm honno ar yr un diwrnod a chyflwyno Cyfyngiad Symud Anifeiliaid oherwydd achos o'r diciau. Byddai Cyngor Sir Powys yn monitro llwyddiant yr arbrawf trwy gofnodi achosion o'r diciau dros gyfnod yr arbrawf. Bwriad yr arbrawf yw canolbwyntio'n fanwl iawn ar yr achosion o'r diciau. Yn cynnig: Y Cynghorydd Aled Davies, yn eilio: Y Cynghorydd Gwynfor Thomas. Mae'r cynigydd a'r eilydd yn datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu yn y cynnig hwn.

| 20. | RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORWYR SIR PAUL ASHTON A WILLIAM POWELL | CC96-2014 |
|---|---|---|

Mae'r Cyngor yn nodi bod dros 2,300 o bobl yn Sir Powys yn byw gyda Dementia. Ar draws Cymru gyfan mae dros 45,000 o bobl yn byw gyda'r cyflwr. Amcangyfrifwyd bod y gost ariannol i Gymru o Ddementia dros £1.26 biliwn yn 2013. Mae dau draean o bobl gyda Dementia yn byw yn y gymuned, gyda nifer ohonynt ar eu pen eu hunain. Mae'r un traean sy'n weddill ac yn dioddef o Ddementia yn byw mewn cartrefi gofal. Dim ond 41% o'r bobl sy'n byw gyda Dementia ym Mhowys sydd wedi cael diagnosis ffurfiol. Y diagnosis yw'r allwedd sy'n datgloi mynediad at gymorth statudol a chymorth o'r trydydd sector. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi addo i fod y parc cenedlaethol cynaf yn y DG sy'n "Dementia Cyfeillgar". Aberhonddu oedd y gymuned gyntaf yng Nghymru i ennill y statws cydnabyddedig Cymdeithas Alzheimers "Gweithio tuag at ddod yn Ddementia Cyfeillgar". Mae'r Cyngor hwn am benderfynu: Gweithio gyda chymunedau ar draws Powys i'w helpu i ennill statws "Gweithio i ddod yn Ddementia Cyfeillgar", gyda'r nod o wneud Powys y sir gyntaf yng Nghymru i fod yn "Ddementia Cyfeillgar". Penodi aelod etholedig i hyrwyddo'r achos "Dementia Cyfeillgar", a phenodi swyddog arweiniol ar gyfer Dementia. Cydweithio mewn partneriaeth â Grwpiau Cymunedol Dementia Cyfeillgar ym Mhowys, a'r Bwrdd Iechyd addysgu Powys, i ddatblygu a gwella gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef o Ddementia. Annog Cynghorwyr, staff a'n darparwyr gofal i ddod yn Gyfeillion Dementia trwy'r fenter Cyfeillion Dementia Cymdeithas Alzheimers. Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia. Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i bobl sy'n byw gyda Dementia a'u gofalwyr trwy eu cynnwys yn benodol mewn Asesiadau Effaith ar Gydraddoleb. Sicrhau bod polisiau Adnoddau Dynol yn adlewyrchu anghenion y gofalwyr yn ein gweithlu. Cynigydd y Cynghorydd Sir Paul Ashton a'r Eilydd y Cynghorydd Sir William Powell.

| 21. | RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORWYR SIR WYNNE JONES AC AVRIL YORK | CC97-2014 |
|---|---|---|

Mae'r Cyngor yn croesawu'r penderfyniad i ysgogi Adolygiad Annibynnol eang ei gwmpas o'r problemau a gafwyd wrth drosglwyddo'r contractau gofal yn y cartref, ond o ganlyniad i ddigwyddiadau diweddar parthed REACH, mae'r Cyngor hefyd yn gofyn bod yr Adolygiad Annibynnol hefyd yn cynnal ymchwiliad manwl, yn benodol i'r mesurau a ddefnyddiodd Cyngor Sir Powys cyn penodi REACH i sicrhau ansawdd y gwasanaeth yr oedd y cwmni hwnnw'n ei ddarparu. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn bod adroddiad yr Adolygiad Annibynnol ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl. Cynigydd Y Cynghorydd Sir Wynne Jones, Eilydd Y Cynghorydd Sir Avril York.

| 22. | RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WYNNE JONES AC ALED DAVIES | CC98-2014 |
|---|---|---|

Mae'r Cyngor yn gofyn bod y Cabinet yn ailystyried ei benderfyniad a wnaed ar y 9fed o Fedi i gau Canolfan Ailgylchu Machynlleth. Yn lle hynny, mae'r Cyngor o'r farn y dylid cynnal arolwg llawn o'r holl wasanaeth Canolfannau Ailgylchu o'r Cartref, a fydd yn ystyried yr holl opsiynau, er mwyn cyflawni'r arbedion cyllidebol a ddynodwyd eisoes gan y Cabinet, ond hefyd ar yr un pryd yn galluogi'r Cyngor i gynnal gwasanaeth cyfartal ar draws y Sir. Cynigydd y Cynghorydd Sir Wynne Jones, Eilydd y Cynghorydd Sir Aled Davies.

| 23. | RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORWYR SIR WYNNE JONES A TIMOTHY VAN-REES | CC99-2014 |
|---|---|---|

Mae'r Cyngor yn gofyn am adolygiad llawn o'r ddarpariaeth Addysg Uwchradd bresennol ym Mhowys, er mwyn darparu model cynaliadwy ar gyfer y dyfodol a'r cyfleoedd addysgol gorau posibl ar gyfer plant Powys. Cynigydd y Cynghorydd Sir Wynne Jones, Eilydd y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees.

| 24. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD | CC100-2014 |
|---|---|---|

24.1 **<u>Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees</u>**

A fydd y cyngor yn gallu rhoi ar unwaith gwybodaeth i gynghorau tref a chymuned am y costau o gynnal a rhedeg y toiledau cyhoeddus y mae'r cyngor yn bwriadu eu cynnig i gynghorau tref a chymuned ar unwaith. Hefyd, a yw'r cyngor yn gallu rhoi gwybod pa gamau mae'n bwriadu ei gymryd i wella safon y toiledau hynny sydd mewn cyflwr annerbyniol fel eu bod yn gallu cael eu cymryd drosodd gan y cyngor gymuned neu gyngor tref berthnasol?

**<u>[ Amgaead CC100.1a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)</u>**

24.2 **<u>Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Avril York</u>**

Yn debyg i nifer o drefi eraill ym Mhowys, mae Cyngor Tref Llanfair-ym-Muallt yn cynnal ystod o wasanaethau anstatudol. Mae'r Cabinet eisoes wedi'i wneud yn glir nad yw'n bwriadu parhau i redeg toiledau na meysydd chwarae. Er mwyn i'r trefi hyn allu gwneud penderfyniadau synhwyrol a rhesymegol ar ran trethdalwyr y cyngor o ran blaenoriaethau, mae angen iddyn nhw gael gwybodaeth am gostau cyfredol y darpariaethau hyn. Felly, pam nad yw'r aelod portffolio ac Arweinydd y Cabinet yn fodlon rhannu'r wybodaeth gyda'r aelod lleol a'r cyngor tref am gostau cyfredol o redeg y toiledau ar y Groe?

**<u>[ Amgaead CC100.2a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)</u>**

24.3 **<u>Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Eiddo ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones</u>**

A yw'r Aelod Portffolio'n gallu esbonio pam fod y gwaith adnewyddu ar ffreutur Neuadd y Sir yn cael ei wneud yn ystod misoedd Medi a Hydref yn hytrach nag yn ystod Gorffennaf ac Awst pan fod yna lai o staff a chynghorwyr yn mynychu Neuadd y Sir.

**<u>[ Amgaead CC100.3a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)</u>**

24.4 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones**

Yn y Cyfarfod Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ym mis Mai, a drefnwyd i drafod y Cynllun Datblygu Lleol, cafwyd trafodaeth hir am y cyfnod ymgynghori. Roedd y rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn teimlo os oedd ymgynghoriad i'w gynnal dros y cyfnod gwyliau y dylai'r ymgynghoriad fod dros gyfnod o 8 wythnos. Yn dilyn y cyfarfod bu yna rai anawsterau ac felly nid oedd hi'n bosibl dechrau'r ymgynghoriad tan 28 Gorffennaf, ac roedd cyfnod yr ymgynghoriad dros 6 wythnos a oedd yn golygu bod y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 8 Medi. Felly cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal bron yn gyfan gwbl dros gyfnod y gwyliau, ac yn sicr nid oedd hyn yn unol a'r hyn a leisiwyd gan yr Aelodau. Yn dilyn hyn, gofynnodd Arweinwyr dau Grwp Gwleidyddol ar y Cyngor am estyniad i'r cyfnod ymgynghori, ond cafodd hyn ei wrthod ac ni roddwyd unrhyw resymau. Felly, a all yr Aelod Portffolio esbonio i'r Cyngor, pam y cafodd dymuniadau penodol yr Aelodau eu hanwybyddu yn yr achos hwn, pwy wnaeth y penderfyniad i gael cyfnod ymgynghori o 6 wythnos a oedd yn cael ei gynnal bron yn gyfan gwbl dros y cyfnod gwyliau, a'r rheswm dros hyn? Hefyd pam oedd y cais am estyniad i'r ymgynghoriad wedi cael ei wrthod a phwy wnaeth y penderfyniad hwnnw?

**[ Amgaead CC100.4a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.5 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones**

A yw'r Aelod Portffolio yn gallu esbonio i'r Cyngor y cyfeiriad a strategaeth gwleidyddol y mae wedi'i sefydlu ar gyfer y cyfnod i 2020, ar gyfer gosod a rheoli'r gyllideb, a sefydlogrwydd ariannol hir dymor y Cyngor?

**[ Amgaead CC100.5a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.6 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid gan y Cynghorydd Sir David Jones**

A yw'r Aelod Portffolio yn gallu rhoi manylion o gostau prydau bwyd ysgolion cynradd fesul pob disgybl i'r cyngor hyd at y pwynt mae'r pryd bwyd yn cael ei weini ond heb gynnwys y costau o'r ddarpariaeth yr ystafell fwyta.

**[ Amgaead CC100.6a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.7 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid gan y Cynghorydd Sir David Jones**

A yw'r Aelod Portffolio yn gallu darparu manylion o'r cyllid a ddarparwyd gan y cyngor sir i redeg a chynnal ein canolfannau chwaraeon a hamdden a'r arian a dalwyd gan gwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaeth.

**[ Amgaead CC100.7a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.8 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir Joy Shearer**

A yw'r Aelod Portffolio yn gallu esbonio i'r Cyngor pam fod CSP wedi methu yn ei ddyletswydd o ofal i gydymffurfio ag argymhellion yr Awdurdod Tan a chael gwaith wedi'i wneud yn Ysgol Gynradd Rhiw-Bechan?

**[ Amgaead CC100.8a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.9 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir David Price**

Yn draddodiadol, cynhaliwyd cyfarfodydd Cyswllt Cynllunio rhwng Gwasanaeth Cynllunio'r Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ddwywaith y flwyddyn yng Ngogledd a De'r Sir ac roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan bawb. Fodd bynnag, nid oes unrhyw Gyfarfodydd Cyswllt Cynllunio wedi cael eu cynnal ers Ebrill 2012, er gwaethaf nifer o geisiadau am y cyfarfodydd gan Gynghorau Tref a Chymuned. A yw'r Aelod Portffolio'n gallu rhoi'r rhesymau pam nad yw'r cyfarfodydd gwerthfawr hyn wedi cael eu cynnal ers Ebrill 2012 ac a yw hi'n bwriadu eu hailsefydlu, ac os felly, pryd?

**[ Amgaead CC100.9a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.10 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Stephen Hayes**

O ystyried eich barn, sy'n cael ei ddatgan yn aml ac yn gadarn, bod y Cyngor yn cyflogi llawer gormod o reolwyr canol, a allwch chi roi gwybod i'r cyngor am y camau rydych chi, fel aelod portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol, wedi'i gymryd i ganfod maint y broblem a'r camau y byddwch chi wedi'u cymryd i ddatrys hyn?

**[ Amgaead CC100.10a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.11 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

A yw'r Aelod Portffolio'n foldon gyda lefel presennol o absenoldeb salwch y cyngor, ac a oes unrhyw wasanaethau lle mae'n teimlo bod lefel absenoldeb salwch yn annerbyniol?

**[ Amgaead CC100.11a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.12 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir John Morris**

Gwariant y dyfodol ar Ysgolion Uwchradd ym Mhowys. Mae'n dod yn fwy amlwg y bydd rhagamcaniadau ar gyfer cyllid ysgolion uwchradd ym Mhowys erbyn 2017 yn dangos gorwariant o o leiaf 2 miliwn o bunnoedd, yn ystod cyfnod o doriadau ariannol difrifol ar draws y cyngor. Mae hyn ar y cyd â chynnydd mawr mewn lleoedd gwag mewn rhai ysgolion yn codi'r cwestiwn o gynaliadwyedd y ddarpariaeth ysgolion uwchradd ym Mhowys. Gan gadw mewn cof bod yn rhaid i ysgolion gael gwybodaeth gynnar ar eu cyllidebau er mwyn ymateb i unrhyw newid mewn polisi, pa gynlluniau sydd wedi'u rhoi yn eu lle gennych chi, fel aelod portffolio, a'r cabinet i ddelio â'r gorwariant hwn ac i rybuddio ysgolion a chymunedau am hyn?

**[ Amgaead CC100.12a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.13 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir John Morris**

Mae Kirsty Williams AC wedi derbyn nifer o lythyron yn tynnu sylw at yr oedi mewn trosglwyddo gofal ac yn sgil hynny blocio gwelyau oherwydd bod yr asiantaeth gofal yn methu â chyflenwi gofal. Mae'r rhain yn cynnwys llythyr gan Dr. D. Paton, Cadeirydd, Is-Bwyllgor Powys o Bwyllgor Meddygol Lleol Dyfed Powys. Mae'n datgan bod y methiant cyffredin i ddarparu pecynnau gofal wedi cynyddu'r pwysau ar ysbytai Cyffredinol Ardal ac ysbytai Cymunedol lleol yn ogystal ag achosi niwed i gleifion bregus a'r ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion eraill. I ba raddau mae'r blocio gwelyau hyn yn digwydd ar draws Powys oherwydd oedi mewn trosglwyddo gofal a pha cyfarwyddyd rydych chi'n ei roi i asiantaethau gofal i ddelio â'r mater pwysig hwn?

**[ Amgaead CC100.13a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.14 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd gan y Cynghorydd Sir Gareth Morgan**

A yw'r Aelod Portffolio'n gallu rhoi'r wybodaeth ganlynol i mi yn ymwneud â chostau Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer pob Pwyllgor Rhanbarthol unigol, sef Sir Drefaldwyn, Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed:- (a) cyfanswm y gwariant refeniw ar gyfer 2013/14 a'r ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer 2014/15 ar gyfer darparu Gwasanaethau Democrataidd a chymorth ar gyfer pob Rhanbarth gan gynnwys y gost o alw cyfarfodydd, cymorth swyddogion, cynrychiolaeth uwch swyddogion mewn cyfarfodydd, y gost o Aelodau'n mynychu'r cyfarfodydd, ac os yw ar gael treuliau teithio aelodau'r Cabinet sy'n mynychu cyfarfodydd y tu allan i'w Rhanbarthau; (b) y gwariant cyfalaf ar gyfer pob Pwyllgor Rhanbarthol unigol ar gyfer y blynyddoedd a nodwyd uchod ar gyfer cynnal y mannau cyfarfod i safon foddhaol; (c) nodi'r pwerau Gweithredol sydd gan bob Pwyllgor Rhanbarthol gan nodi pa mor aml mae'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio; (d) pa wariant sydd wedi cael ei wario ar gyfer darparu lluniaeth mewn cyfarfodydd Rhanbarthol?

**[ Amgaead CC100.14a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.15 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Russell George**

Mae'r awdurdod wedi sefydlu system o ardaloedd Amgylchedd Lleol, fel bod penderfyniadau gweithredol a gwasanaethau lleol yn gallu cael eu hintegreiddio. Y rheswm dros wneud y penderfyniad hwn oedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth. A yw aelod y cabinet yn gallu amlinellu unrhyw newidiadau i'r system hon, a pham fod unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud?

**[ Amgaead CC100.15a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.16 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cwsmer gan y Cynghorydd Sir Russell George**

A yw'r aelod Cabinet yn gallu rhoi ar wefan y Cyngor, dolen i rifau ffôn Gwasanaethau Cwsmer y Cyngor. A all yr aelod Cabinet hefyd roi ei farn ar ba mor hawdd yw hi i ddod o hyd i'r rhifau hynny ar y wefan. A yw'r aelod cabinet yn cytuno gyda mi bod angen i drigolion Powys gael sgwrs dros y ffôn gydag aelod o staff weithiau, ac nad yw ebost a dulliau eraill o gyswllt anuniongyrchol y ffordd orau bob tro i roi help llaw i rywun sydd ag ymholiad?

**[ Amgaead CC100.16a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

24.17 **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Russell George**

A yw'r aelod cabinet yn gallu rhoi'r wybodaeth ganlynol? Cyfanswm nifer y digwyddiadau ffurfiol a phryderon ynglyn â'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol i Oedolion, neu ei ansawdd, ar gyfer y cyfnod canlynol isod gan yr holl sefydliadau partner (e.e. GIG, heddlu, Bwrdd Iechyd addysgu Powys, Meddygon Teulu) gwleidyddion, a gan aelodau o'r cyhoedd A - Ebrill 1 2013 - Medi 30 2013 (cyfnod o 6 mis y llynedd) B - Ebrill 1 2014 - Medi 30 2014 (cyfnod o 6 mis eleni) C - Yr un wybodaeth i'w ddarparu mewn ffigyrau o ran y nifer bob mis.

**[ Amgaead CC100.17a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

**[ Amgaead CC100.17b-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

**[ Amgaead CC100.17c-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**